## Gwneud Gwahaniaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dywedodd **95%** fod y cyngor a gawsant wedi gwneud gwahaniaeth o ran gallu eu helpu eu hunain | Dywedodd **95%** o bobl fod ein gwasanaeth wedi gwneud gwahaniaeth o ran eu hyder | Dywedodd **98%** fod y cyngor a gawsant wedi gwneud gwahaniaeth o ran eu gwybodaeth | Dywedodd **98%** fod ein gwasanaeth wedi rhoi tawelwch meddwl iddynt (iechyd meddwl) |

## Rydyn ni wedi...

**Adrodd ar** – Weinyddu Budd-daliadau Tai; Adennill Treth Cyngor; Yr Effaith ar Les ar gyfer Castell-nedd Port Talbot; Meddygon Teulu a thystiolaeth feddygol

**Cyfrannu at –** Adolygu strategaethau Tlodi, Digartrefedd ac Atal lleol; Yr Ymgyrch Credyd Cynhwysol Genedlaethol; ymgyrch y Ddraig Goch – gan gynnwys Siopa Dirgel mewn amryw o Swyddfeydd Post ledled yr ardal.

**Cyfarfod ag** — Arweinwyr Cynghorau, Dirprwy Arweinydd Castell-nedd Port Talbot ac Aelod o'r Cabinet ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol yn Abertawe. Hefyd, fe wnaethom friffio aelodau'r Blaid Lafur yn Nwyrain a Gorllewin Abertawe yng nghyswllt Credyd Cynhwysol.

## Y Dyfodol




Ym mis Rhagfyr 2017, fe ddechreuom y broses o symud i'n safle newydd

**Ein cyfeiriad newydd**: 50a City Gates, Wind Street, ABERTAWE, SA1 1EE

**Ein rhif ffôn newydd** : 0300 3309 082

cyngor ar bopeth | citizens advice

abertawe castell-nedd port talbot
swansea neath port talbot

# Eich helpu chi i ffeindio ffordd ymlaen

# 2017 - 2018

"Pan es i i'r apwyntiad i ddechrau, roeddwn i wedi anobeithio'n llwyr. Cefais fy nhrin fel person yn hytrach na niwsans ac fe roddodd y cynghorydd fy holl broblemau mewn persbectif. Tra oeddwn i yno, fe ddechreuodd eu sortio a gwneud i bobl sylweddoli'r fath sefyllfaoedd ofnadwy roedden nhw wedi fy rhoi ynddynt. Mi fydda i bob amser yn ddiolchgar am eich help. Diolch o waelod calon."

"Maen nhw wedi cymryd y pwysau oddi arna i – rwyf o dan lai o straen ac yn teimlo'n llai pryderus"

Mae hi wedi bod yn flwyddyn brysur arall i Ganolfan Cyngor ar Bopeth Abertawe Castell-nedd Port Talbot. Fe wnaethom wella ein gwasaneth ffôn gan ddefnyddio VOIP, a wnaeth olygu bod 40% o'n cleientiaid wedi cael gafael arnom o'i gymharu â 25% y flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, fe wnaethom ddelio â 200 galwad yr wythnos drwy'r Llinell Gynghori leol.

Ym mis Rhagfyr 2017, lansiwyd ein Canolfan Wybodaeth, sy'n helpu 166 cleient yr wythnos ar gyfartaledd. Fe wnaethom hefyd sicrhau 89 slot apwyntiad yn Abertawe a 47 yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Fe wnaethom ddarparu gweithdai PIP drwy gydol y flwyddyn.

*"Mae'n cael gwared â llawer o straen – heb eich help chi, fyddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud – diolch yn fawr"*

*"Rydyn ni wedi cael gwasanaeth a chymorth rhagorol*

*sydd wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol bob amser*

*ac wedi'n helpu ni â'n hawliad.*

*Fe fydden ni'n argymell Cyngor ar Bopeth yn gryf."*

*"...amhrisiadwy i bob fel fi ac eraill, rydych chi wedi dangos i mi fod cymorth ar gael i fy helpu yn fy mrwydr â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Diolch o galon"*

## Cipolwg

**Ein Cleientiaid**

Fe wnaethom weld

6,506 o gleientiaid

Fe wnaethom eu helpu â

12,617 o broblemau

Fe wnaethom ateb dros 9,800 o alwadau (coeliwch neu beidio!)

**Outcomes**

£4,972,537 o incwm wedi'i ennill

£712,073 o ddyledion wedi'u diddymu

£5,894 o daliadau wedi'u haildrefnu

**Proffiliau cleientiaid**

59:41

Benyw : Gwryw

Roedd gan 55% o'n cleientiaid anabledd

Mae 10% o'n cleientiaid yn Asiaidd, Du neu o Hil Gymysg

## Meysydd lle rydyn ni wedi helpu

Y 5 prif fater




## Yr ardal rydym yn gyfrifol amdani




## Gweithio gydag eraill




**EYST**—Fe wnaethom helpu 65 o gartrefi ffoaduriaid gyda chais am Ddogfennau teithio gyda chymorth gweithiwr EYST a oedd yn dod i gynnig gwasanaeth galw heibio unwaith y mis




**SBREC, REMPLOY**—mae atgyfeiriadau rheolaidd gan y partneriaid hyn wedi dod drwy ein Llinell Partneriaid a lansiwyd eleni

**Canolfannau Byd Gwaith lleol—** rydym wedi gweithio gyda Chanolfannau Byd Gwaith lleol ar ôl i Gredyd Cynhwysol gael ei gyflwyno – o fis Hydref ymlaen yng Nghastell-nedd Port Talbot ac o fis Rhagfyr ymlaen yn Abertawe

**Awdurdod Lleol Castell-nedd Port Talbot**—rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i ddarparu cymorth cyllidebu personol i 64 o bobl o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol

**Darparwyr Allgymorth**

**Castell-nedd:** Hwb Pontardawe, Age Connect, swyddfa Christina Rees a Chanolfan Feddygol Sgiwen, Canolfan Melin, Resolven HC,

**Port Talbot:** NSA Bevin Avenue, Canolfan St Pauls, Prosiect Llwybrau Caer Las, Meddygfeydd Cwm Afan yn y Cymer, Blaengwnfi a Glyncorrwg

**Swansea:** Pwynt Mynediad Caer Las, Canolfan Phoenix, Canolfan i Deuluoedd Mayhill, Cymunedau yn Gyntaf Bôn-y-maen, Canolfan Byd Gwaith Treforys, Seion Newydd, Canolfan Iechyd Clydach, Canolfan Dydd Tŷ Einon, Penderi, Rhwydweithiau Iechyd Cymunedol Llwchwr a'r Bae